**Papur Bwrdd (19)026**

**Papur Bwrdd i'w nodi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cofnodion y Cyfarfod Bwrdd, 17 Mai 2019

| **Yn bresennol:** | **Yn mynychu:** |
|---|---|
| Shan Morgan | Aled Roberts - Comisiynydd y Gymraeg |
| Ellen Donovan | Dylan Hughes |
| Ann Keane | Bethan Griffiths |
| Jeff Farrar | |
| Gareth Lynn | |
| Tracey Burke | Yr Ysgrifenyddiaeth: |
| Des Clifford | Charmain Watts |
| Andrew Slade | |
| Natalie Pearson | |
| Gawain Evans | |
| David Richards | |
| Peter Kennedy | |
| Jeff Godfrey | |
| Gillian Baranski | |
| Charlotte Cosserat | |
| Simon Dean | |
| Helena Bird | |

**Ymddiheuriadau:**

Andrew Goodall

### 1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd Charlotte Cosserat, yr aelod bwrdd cysgodol, a Robin Bradfield, Cadeirydd Ochr yr Undebau Llafur.

### 2. Yr wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Cwm Taf

**2.1** Rhoddodd Simon Dean, Dirprwy Gyfarwyddwr GIG Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf ar y materion sydd wedi codi yn ddiweddar gyda'r gwasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf a bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'i osod mewn mesurau arbennig ers pedair blynedd.

**Papur Bwrdd (19)026**

**Mesurau Arbennig - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**

**2.2** Rhoddodd Simon Dean wybod bod BIPBC wedi'i osod o dan fesurau arbennig yn 2015 oherwydd y methiannau yn y ffordd o gyflenwi gwasanaethau, effeithiolrwydd sefydliadol, ac ansawdd a diogelwch y gofal gan gynnwys darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau mamolaeth a gofal sylfaenol gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau. Ym mis Ionawr, cyhoeddwyd y fframwaith gwella mesurau arbennig a oedd yn nodi'r cerrig milltir i BIPBC eu cyflawni erbyn mis Mai 2016, mis Tachwedd 2016 a mis Tachwedd 2017, i gael eu hystyried ar gyfer gostwng y statws uwchgyfeirio.

**2.3** Cyhoeddwyd yr ail fframwaith gwella mesurau arbennig ym mis Mai ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2018 a mis Medi 2019 ac roedd yn cynnwys cerrig milltir allweddol dan y penawdau arweinyddiaeth a llywodraethu, cynllunio strategol a chynllunio gwasanaethau, iechyd meddwl a gofal sylfaenol gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau. Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ynglŷn â'r cynnydd ar ddechrau mis Mehefin ac yn cyhoeddi fframwaith diwygiedig a fydd yn blaenoriaethu'r cerrig milltir ar gyfer y 12 mis nesaf i gyflawni'r gwelliant cyson i gael eu hystyried ar gyfer gostwng y statws uwchgyfeirio.

**Gwasanaethau mamolaeth Bwrdd Iechyd Cwm Taf**

**2.4** Rhoddodd Simon Dean wybod bod y gwasanaeth mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi nodi nifer o ddigwyddiadau difrifol yn ystod haf 2018. Comisiynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd i gynnal adolygiad annibynnol ym mis Hydref 2018. Cytunodd cyfarfod teirochrog eithriadol rhwng Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru y dylai'r statws uwchgyfeirio gynyddu o drefniadau arferol i drefniadau monitro uwch. Cyflwynwyd Datganiad Ysgrifenedig yn cadarnhau'r lefel uwchgyfeirio ym mis Ionawr 2019.

**2.5** Yn dilyn adroddiad yr Adolygiad Mamolaeth ym mis Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod teirochrog eithriadol a chytunodd y Gweinidog y dylid codi'r lefel uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig, tra bod lefel y sefydliad yn gyffredinol yn cael ei godi i lefel ymyrraeth wedi'i dargedu. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau'r lefel uwchgyfeirio ym mis Ebrill 2019. Mae cyfarfodydd Ymyrraeth wedi'i Dargedu/Mesurau Arbennig yn cael eu trefnu ar lefel weithredol gyda'r bwrdd iechyd. Mae’r digwyddiad cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Mehefin. Bydd hyn yn cael ei lywio gan yr adborth ar gyfer y Panel Trosolwg a'r ymyraethau ehangach. Bydd y Panel hefyd yn rhoi adroddiadau am yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol i swyddogion ac yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol cynhwysfawr i'r Gweinidog a fydd yn cael eu cyhoeddi.

**3.**

3.1 Rhoddodd Des Clifford wybod bod y dyddiad ymadael wedi'i ymestyn i 31 Hydref, ac esboniodd bod tri dewis posibl ar gyfer y dyfodol:

1. Ymadael heb gytundeb ar 31 Hydref
2. Aros yn yr UE am gyfnod hirach cyn ymadael
3. Y DU i aros yn yr UE yn barhaol

3.2 Nododd y Bwrdd bod problemau ynghlwm wrth y tri dewis, a nododd Des Clifford y byddai aros yn yr UE yn hirach cyn ymadael yn cael effaith ar y polisi amaethyddol cyffredin. Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud tri darn o waith ar yr un pryd i sicrhau ei fod yn parhau i weithredu system bresennol yr UE, yn paratoi ar gyfer system newydd Llywodraeth Cymru ac yn paratoi ar gyfer rownd ariannol nesaf system yr UE.

3.3 Esboniodd Des Clifford hefyd bod yr estyniad wedi rhoi cyfle inni fyfyrio ar y gwaith a wnaed hyd yma a datblygu ymarfer gwersi a ddysgwyd. Rhoddodd wybod hefyd bod hyn yn rhoi ychydig o amser inni ailgyfeirio’r ffocws a chaniatáu i waith sydd wedi arafu o ganlyniad i Brexit fynd rhagddo er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog.

3.4 Nododd y Bwrdd bod y risg o gael Brexit heb gytundeb yn dal i fod yn bosibilrwydd ac roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn barod.

## 4. Adroddiad Cyllid

4.1 Cyflwynodd Gawain Evans Adroddiad Cyllid a oedd yn canolbwyntio ar asesiad cychwynnol o sefyllfa ariannol flynyddol 2019-20. Dywedodd fod gofyn i Benaethiaid Cyllid Llywodraeth Cymru, cyn y broses reoli ariannol fisol reolaidd, roi barn gychwynnol am eu sefyllfa ariannol a thynnu sylw at unrhyw bwysau cyllidebol a/neu danwariant. Mae hyn yn ein galluogi i gynnal trafodaethau yn gynnar gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar y defnydd posibl o'n cronfeydd wrth gefn ac i lywio’r trafodaethau dwyochrog a gynhelir.

4.2 Roedd trafodaethau pellach yn canolbwyntio yn helaeth ar y canlynol:

- Pwysau refeniw
- Pwysau cyfalaf
- Sefyllfa cronfeydd wrth gefn cyfredol
- Cyllideb DEL gyfredol
- Cronfeydd DEL heb eu dyrannu

4.3 Rhoddodd Gawain Evans wybod bod y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd wedi ysgrifennu at ei chydweithwyr ar y Cabinet ynglŷn â'r mater o ganfod tanwariant yn gynharach yn y flwyddyn i hwyluso trafodaeth ynglŷn â blaenoriaethau. Roedd hi hefyd wedi creu Bwrdd Polisi a fydd yn trafod materion ariannol allweddol. Croesawodd y Bwrdd y ffaith fod y Bwrdd Polisi wedi’i sefydlu.

4.4 Esboniodd Gawain Evans hefyd bod Llywodraeth Cymru yn rhan o gynllun rheoli arian Trysorlys ei Mawrhydi. Bob mis bydd adrannau'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu rancio yn ôl pa mor fanwl gywir yw eu rhagolygon ariannol yn erbyn y gwir alldro, ac roedd Llywodraeth Cymru wedi'u gosod yn ail. Roedd y Bwrdd yn hapus gyda'r canlyniad hwn a llongyfarchwyd gwaith Gawain a'i dîm.

## 5. Comisiynydd y Gymraeg

5.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg i'r cyfarfod. Rhoddodd Aled Roberts drosolwg o'i swyddogaethau a oedd yn cynnwys:

- hybu’r defnydd o’r Gymraeg
- hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg
- gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy roi dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau'n ymwneud â'r Gymraeg
- cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd
- ymchwilio i achosion o ymyrryd â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg

5.2 Cyflwynodd Aled Roberts bapur a oedd yn canolbwyntio ar dair elfen allweddol. Roedd y gyntaf yn gyflwyniad cyffredinol i waith y Comisiynydd; yr ail yn tynnu sylw at faterion pwysig i gytuno arnyn t rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd yn ystod cyfnod cychwynnol Aled Roberts yn ei swydd newydd; ac roedd trydedd ran y papur yn ymdrin ag agweddau ar y broses o weithredu'r safonau o ran cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisïau, safonau hyrwyddo a'r rhai sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg fel rhan o weinyddiaeth fewnol sefydliadau cyhoeddus.

5.3 Amlinellodd Aled Roberts y camau nesaf ar gyfer y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru:

- Cytuno ar fframwaith cefnogi cryfach ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a fydd yn helpu i ddiwallu gofynion Mesur y Gymraeg a gweledigaeth Strategaeth 2050.
- Gwneud y mwyaf o'r adnoddau prin ac osgoi dyblygu.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy flaenoriaethu meysydd allweddol a gwneud defnydd effeithiol o bwerau'r Mesur i alluogi rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

5.4 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Aled Roberts a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cael cyfeiriad clir gan y Prif Weinidog a'r Gweinidogion. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi uchelgais glir a fydd yn llywio polisi dros y tymor hirach a fydd yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.

## 6. Y diweddaraf: defnyddio'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru

6.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol wybod bod yr eitem flaenorol ar y rhaglen gan Gomisiynydd y Gymraeg yn gyflwyniad ardderchog i'r eitem hon, a dywedodd y bydd yn cael cyfarfodydd rheolaidd gydag ef.

6.2 Roedd Dylan Hughes a Bethan Griffiths yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y papur ar y defnydd o'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Bwrdd nodi mai papur trafod oedd hwn ac y bydd papur arall yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol, a fydd yn ymateb i'r drafodaeth yn y cyfarfod hwn.

6.3 Roedd y papur yn canolbwyntio ar:

- Y cefndir
- Beth yw dwyieithrwydd?
- Yr hyn a gynigir o ran dysgu Cymraeg i staff Llywodraeth Cymru
- Arferion da mewn sefydliadau eraill
- Polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg
- Adlewyrchu ar bapur a chasgliadau'r grŵp gorchwyl a gorffen.

6.4 Esboniodd Dylan Hughes fod gofyn i Lywodraeth Cymru lunio a chyhoeddi polisi yn amlinellu sut y bydd yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Mae angen cytuno ar y polisi o fewn cyd-destun gwleidyddol ehangach lle mae'r Llywodraeth wedi gosod targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae datblygu polisi ystyrlon yn golygu y bydd angen i'r sefydliad gytuno ar uchelgais glir.

6.5 Croesawodd y Bwrdd y nod o ddatblygu polisi mewnol Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol o ran y defnydd o'r Gymraeg, gan gydnabod pwysigrwydd y pwnc. Cytunodd y Bwrdd fod gosod gweledigaeth sy'n uchelgeisiol, yn ystyrlon ac yn realistig yn gofyn am ymdriniaeth ofalus yng nghyd-destun y sefydliad. Byddai'n bwysig sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cynnwys yn y

broses ac na ddylai unrhyw ddull gweithredu olygu nad yw talent newydd posibl yn ymuno â'r sefydliad.

6.6 Crynhodd Dylan Hughes ganfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i ystyried defnydd mewnol Llywodraeth Cymru o'r Gymraeg a'i gweledigaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y sefydliad.

6.7 Roedd y Bwrdd yn teimlo bod y papur yn ddefnyddiol iawn wrth ddatblygu'r agenda a diolchwyd i'r tîm a oedd wedi ei lunio. Trafododd y Bwrdd y camau nesaf a chytunwyd ar y canlynol:

- Mae'n bwysig ymgynghori'n eang yn y sefydliad wrth i bolisi gael ei ddatblygu. Bydd angen i unrhyw newid i'r polisi gael ei werthuso a'i herio yn llawn, a'i drafod gydag ochr yr Undebau Llafur.
- Ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg fel modd o gefnogi gweithio dwyieithog yn y sefydliad
- Defnyddio theori newid ymddygiad i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a sicrhau bod arweinyddiaeth gryf a gweledol wrth wraidd datblygu'r polisi.
- Ystyried polisi yn y tymor hirach, gyda cherrig milltir graddol a fydd yn caniatáu cyfnodau saib ac ystyried, i ganiatáu ar gyfer gwerthuso ymyriadau a chytuno ar amcanion ar gyfer y cyfnod nesaf.
- Ailwerthuso'r hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael i staff

**Cam gweithredu 1:** Sefydlu grŵp polisi ac ymgynghori'n eang ar draws y sefydliad wrth i bolisi gael ei ddatblygu, fel bod unrhyw newid i bolisi yn cael ei werthuso a'i herio'n llawn. Dylid cynnwys ochr yr Undebau Llafur yn y trafodaethau hynny

**Cam gweithredu 2:** Ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg fel modd o gefnogi gweithio dwyieithog yn y sefydliad

**Cam gweithredu 3:** Defnyddio theori newid ymddygiad i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle

**Cam gweithredu 4:** Sicrhau bod arweinyddiaeth gref a gweladwy yn ganolog i ddatblygu'r polisi

**Cam gweithredu 5:** Ystyried polisi yn y tymor hirach, gyda cherrig milltir graddol a fydd yn caniatáu ar gyfer cyfnodau saib ac ystyried, i ganiatáu ar gyfer gwerthuso ymyriadau a chytuno ar amcanion ar gyfer y cyfnod nesaf.

**Cam gweithredu 6:** Ailwerthuso'r hyfforddiant yn y Gymraeg sy'n cael ei gynnig i staff.

**Cam gweithredu 7:** Papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w ddychwelyd i gyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol yn ymateb i'r drafodaeth yn y cyfarfod hwn.

## 7. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac eitemau is-bwyllgorau

7.1 Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol at y cylch gorchwyl diwygiedig. Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach a chytunodd y Bwrdd ar eu ffurf derfynol. Atgoffodd y Bwrdd i gwblhau'r holiadur hunanasesu a fydd yn llywio adolygiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2018/19.

7.2 Rhoddodd Jeff Farrar yr wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith yn ymwneud â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen wedi cyfarfod sawl gwaith i drafod beth all fod yn ddull addas o baratoi set uwch a systematig o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Esboniodd ei fod wedi defnyddio'r deunydd presennol gan sicrhau ei fod yn cipio'r holl ddeunydd perthnasol ym mhob Adran. Cynhelir gweithdy ym mis Mehefin i brofi datganiadau lefel uchel ynglŷn â beth yw ystyr ‘da’.

7.3 Rhoddodd Jeff Farrar drosolwg o waith y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth - roedd hyn yn cynnwys trafodaethau o ran swyddi Cyfarwyddwr/Dirprwy Gyfarwyddwr a data ar ddadansoddi tueddiadau.

7.4 Rhoddodd Ann Keane adborth o'r cyfarfod ARaC diwethaf a rhoddodd wybod bod y pwyllgor wedi cytuno i rannu gwybodaeth yn fwy systematig. Soniwyd hefyd am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a fydd yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf. Dywedodd Ann hefyd bod trefniadau ar waith i Gyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru gyfarfod Cyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth yr Alban i rannu dysg, trafod blaenoriaethau a heriau a chymharu modelau llywodraethu.

7.5 Rhoddodd David Richards yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol a rhoddodd grynodeb o’r adroddiadau RAG yngylch Biliau'r Llywodraeth sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd, Biliau Blwyddyn 3 a Gadarnhawyd, a Biliau Disgwyliedig Blwyddyn 4. Dywedodd hefyd y bydd y Cabinet yn ystyried Biliau Blwyddyn 4 yr wythnos nesaf.

7.6 Trafododd y Bwrdd drefniadau llywodraethu Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, a rhoddodd David Richards wybod y bydd unrhyw broblemau neu benderfyniadau allweddol yn cael eu huwchgyfeirio i'r Pwyllgor Gweithredol.

## 8. Hyfforddiant Arweinyddiaeth Iechyd a Diogelwch

8.1 Rhoddwyd hyfforddiant Arweinyddiaeth Iechyd a Diogelwch a oedd yn canolbwyntio ar newidiadau allweddol yn ISO 45001 (y Safon Iechyd a Diogelwch rhyngwladol newydd) a fydd yn effeithio ar uwch arweinwyr a'r sefydliad.

**Papur Bwrdd (19)026**

**Camau gweithredu yn deillio o gyfarfod y Bwrdd**

| CAM GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **Cam gweithredu 1:** Sefydlu grŵp polisi ac ymgynghori yn eang ar draws y sefydliad wrth i bolisi gael ei ddatblygu, fel bod unrhyw newid i bolisi yn cael ei werthuso a'i herio'n llawn. Dylid cynnwys ochr yr Undebau Llafur yn y trafodaethau hynny. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Ar waith - cynhelir sesiwn herio ar 16 Gorffennaf ar bolisi mewnol y Gymraeg. |
| **Cam gweithredu 2:** Ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg fel modd o gefnogi gweithio dwyieithog yn y sefydliad. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Ar waith |
| **Cam gweithredu 3:** Defnyddio theori newid ymddygiad i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Ar waith |
| **Cam gweithredu 4:** Sicrhau bod arweinyddiaeth gref a gweladwy yn ganolog i ddatblygu'r polisi | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Ar waith |
| **Cam gweithredu 5:** Ystyried polisi yn y tymor hirach, gyda cherrig milltir graddol a fydd yn caniatáu ar gyfer cyfnodau saib ac ystyried, i ganiatáu ar gyfer gwerthuso ymyriadau a chytuno ar amcanion ar gyfer y cyfnod nesaf. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Ar waith |
| **Cam gweithredu 6:** Ailwerthuso'r hyfforddiant yn y Gymraeg sy'n cael ei gynnig i staff. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Ar waith |
| **Cam gweithredu 7:** Papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w ddychwelyd i gyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol yn ymateb i'r drafodaeth yn y cyfarfod hwn. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Ar waith |